CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
20 Mehefin 2017, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, D Morgan, A Wyn	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, D Roberts, PCSO S Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16 Mai 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Bydd y Clerc yn cysylltu a'r cwmni sydd yn gwneud y plac
4.2	**Damwain sgwar Talwrn** - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.3	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.4	**Adolygu cyflog y Clerc.** Cytunwyd i codi cyflog y Clerc i £275 y mis o mis Gorffennaf
4.5	**Seddau gwag.** Mae'r Clerc wedi derbyn tri cais: Mr Dewi ap Rhobert, Mrs Wendy Williams a Mr Gwyndaf Williams. Cytunwyd i cyfethol y tri.
4.6	**Polisi y Cyngor Sir ar dysgu Cymraeg.** Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf.
4.7	**Ethol Is-Gadeirydd 2017/18**. Etholwyd Cyng D Morgan yn Is-Gadeirydd.
4.8	**Ethol cynrychiolwyr:** Fforwm Cynllunio Cyng D Pritchard, Elusen Plwyf Llanffinan/Penmynydd (bydd y Clerc yn cysylltu a'r Elusen i gofyn oes angen cynrychiolydd), Unllais Cymru Cyng A Wyn, Bwrdd Llywodraethol Ysgol Talwrn - teimlwyd bod angen rhywun o ardal Talwrn - bydd y Clerc yn cysylltu a Cyng A Williams, Fforwm Mynediad Lleol Cyng D ap Rhobert.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C278C Cais llawn ar gyfer codi annedd newydd sydd yn cynnwys balconi ynghyd a chodi modurdy ar dir yn Tyn Lon, Llangwyllog. Sylwadau y Cyngor. Sylwadau y Cyngor: Mae'r dyluniad yn anghydnaws gyda'r amgylchedd
5.2	23C341 Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeiladau allanol i 5 annedd a swyddfa, gosod paced trin carthffosaieth ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn Ty Hen, Llanffinan - cynlluniau diwygiedig- dim sylwadau
	Llofnod…….Cadeirydd 18.07.17

5.3	23C236C Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu i'r annedd, codi modurdy newydd ynghyd a newid defnydd adeilad allanol i anecs hunangynaliadwy yn Minffordd Cottage, Tregaian - dim sylwadau
5.4	23C280F Plas Llanfihangel - Apêl - gwybodaeth yn unig
	Busnes y Cyngor
5.5	Pwyllgor Safonnau - Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor - dim diddordeb
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - cyfarfod blynyddol 28.06.17 - gwybodaeth yn unig
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
7.2	Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol
	Cytunwyd i dalu:
7.3	G Hughes torri gwair £300.00
7.4	Eisteddfod Gadeiriol Talwrn 2017 - rhodd £250.00
7.5	Unllais Cymru £40.00 (cwrs hyffroddiant Cyng Aaron Jones)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mynwent Llanddyfnan - Dywedodd y Clerc bod tyrchod ddaear yn y fynwent unwaith eto. Bydd y contractwr Martyn Cash yn cael golwg ar y mater.
8.2	Cais gan Wendy Williams i torri gwair o lon Ceint o arwydd 30 Talwrn ger Bryn Gors, i'r gyffordd ble mae lon ceint yn ymuno a lon penmynydd. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Llwybr cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy
	Llofnod…….Cadeirydd 18.07.17